PAM Y DYLAI BUDDSODDWYR YSTYRIED

# MENTER MÔN

FEL PARTNER LLEOL DIBYNADWY AR GYFER CYFLAWNI GWERTH CYMDEITHASOL



www.mentermon.com

# CYNNWYS:


CYFLWYNIAD........................................................................................ 3

MENTER GYMDEITHASOL DDIBYNADWY.......................................................................... 4

BETH MAE POBL YN EI DDWEUD AMDANOM.......................................................................... 5

BETH RYDYM YN EI WNEUD A BETH ALLWN EI GYNNIG.................................................... 6

LLES CYMUNEDOL A CHYDLYNIANT CYMDEITHASOL................................................. 7

YR IAITH GYMRAEG A HUNANIAETH DDIWYLLIANNOL........................................................ 7

GWELLA AMGYLCHEDDOL DAN ARWEINIAD Y GYMUNED................................................ 8

ADEILADU GWYTNWCH A GRYMUSO LLEOL.................................................... 9

CEFNOGAETH BUSNES A THWF MENTER........................................................ 10

CEFNOGAETH I'R SECTOR BWYD A DIOD................................................................. 11

PAM Y GALL BUDDSODDWYR DDIBYNNU AR MENTER MÔN.............................................. 12

# CYFLWYNIAD

Mae Menter Môn yn gwmni di-elw sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yng nghymunedau Ynys Môn, Gwynedd a gogledd-orllewin Cymru.

Ers 1995, mae wedi gweithredu gyda chenhadaeth glir: cefnogi cymunedau i ffynnu'n gymdeithasol, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol.



# MENTER GYMDEITHASOL DDIBYNADWY

## Gwreiddiau Lleol Dwfn wedi ei ymrwymo

Ers dros 30 mlynedd, mae Menter Môn wedi gweithio i fynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu cymunedau ar draws y rhanbarth. Mae ei statws di-elw a'i bartneriaethau hirsefydlog â chymunedau yn dangos dibynadwyedd, didueddrwydd ac ymddiriedaeth gyhoeddus

## Llywodraethu Cadarn a Phwrpas Clir

Mae'r sefydliad yn gweithredu gyda strwythur llywodraethu cadarn ac amcanion strategol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cymunedol, cynaliadwyedd ac arloesedd. Mae aelodau'r Bwrdd yn dod ag arbenigedd proffesiynol ac yn gwirfoddoli eu hamser, gan atgyfnerthu ethos cymunedol cryf.

## Cyflawni Cyson o Ansawdd Uchel

Mae'r sefydliad wedi sefydlu rhwydweithiau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan alluogi cydweithio, ymgysylltiad cynhwysol a chefnogaeth i brosiectau.

Ar draws y degawdau, mae Menter Môn wedi arwain mentrau sy'n adfywio ardaloedd lleol, cefnogi'r economi, gwella hunaniaeth ddiwylliannol a gwarchod yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn rhoi hyder i fuddsoddwyr yn ei gallu i gyflawni rhaglenni cymhleth sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

"Rydym wedi gweithio gyda Menter Môn ers nifer o flynyddoedd ac yn eu hystyried yn bartner dibynadwy a rhagweithiol iawn. Mae eu gwaith wedi cryfhau ein hymgysylltiad â busnesau ar draws Gogledd Cymru yn sylweddol, gan ein cefnogi i adeiladu perthnasoedd gwerthfawr, cefnogi cydweithio, a chreu cyfleoedd newydd o fewn yr economi ranbarthol."

**SIAMBR FASNACH GORLLEWIN CAER A GOGLEDD CYMRU**

"Rydym wedi gweithio'n agos gyda Menter Môn i sefydlu Cronfa Budd Cymunedol Fferm Solar Porth Wen. Mae ganddynt berthynas ardderchog â'r gymuned ac maent yn bartner cyflawni dibynadwy."

**EDF POWER SOLUTIONS**

# BETH MAE POBL YN EI DDWEUD AMDANOM

"Rwyf wedi cydweithio â Menter Môn mewn ffyrdd amrywiol dros fy ngyrfa ac yn parhau i wneud hynny yn fy rôl fel Cadeirydd Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae gan Menter Môn gysylltiad agos iawn â'r cymunedau ac maent yn gweithredu er budd y cymunedau maent yn eu hadnabod. Maent yn bartner strategol cryf a gwerthfawr."

**ANNWEN MORGAN**
**CADEIRYDD FFORWM IAITH YNYS MÔN**
**CYN BRIF WEITHREDWR CYNGOR SIR YNYS MÔN**

# PARTNER DIBYNADWY

Rydym yn falch o fod wedi gweithio gyda'r sefydliadau canlynol, sydd wedi ymddiried ynom i gyflawni prosiectau ar eu rhan. Rydym wedi rheoli a gweinyddu cyllidebau sylweddol yn llwyddiannus ac yn falch o'r canlyniadau a gyflawnwyd.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

NDA
Nuclear
Decommissioning
Authority



# GWERTH CYMDEITHASOL: BETH RYDYM YN EI WNEUD A BETH ALLWN EI GYNNIG

- Llesiant Cymunedol a Chydlyniant Cymdeithasol
- Y Gymraeg a Hunaniaeth Ddiwylliannol
- Gwella Amgylcheddol dan Arweiniad y Gymuned
- Adeiladu Gwytnwch a Grymuso Lleol
- Cefnogaeth Busnes, Twf Menter a Datblygu'r Sector Bwyd a Diod
- Cefnogaeth Busnes a datblygu mentrau
- Cefnogaeth i'r Sector Bwyd a Diod

# LLESIANT CYMUNEDOL A CHYDLYNIANT CYMDEITHASOL

Mae Menter Môn yn cefnogi cymunedau gwydn, iach sy'n creu cysylltiadau drwy gyflawni rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant, iaith, ymgysylltu â phobl ifanc a grymuso cymunedol.



## Y Gymraeg a Hunaniaeth Ddiwylliannol

Mae gweithgareddau sy'n cryfhau'r iaith a balchder lleol yn cynnwys:

Sesiynau ymwybyddiaeth am y Gymraeg i fusnesau, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr

Sesiynau am y Gymraeg i rieni a babanod sy'n meithrin hyder i deuluoedd newydd

Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc, gan gynnwys clybiau, gweithdai a digwyddiadau diwylliannol

Sesiynau cyfranogi iaith Gymraeg i oedolion, cyfleoedd sgwrsio a digwyddiadau cymunedol

Cefnogaeth i wyliau lleol, dehongli treftadaeth a dathliadau diwylliannol

Be Nesa' Llŷn - Rydym yn gweinyddu cronfa fenthyciadau di-log a grëwyd gan grŵp o weithwyr busnes proffesiynol lleol, wedi'i neilltuo i helpu pobl ym Mhen Llŷn i ddechrau neu dyfu eu busnes neu fenter gymunedol.

# GWELLA AMGYLCHEDDOL DAN ARWEINIAD Y GYMUNED

Gweler isod enghreifftiau o ymrwymiad hirdymor Menter Môn i gynaliadwyedd a bioamrywiaeth:




- Cefnogi grwpiau cymunedol i sefydlu a chynnal mannau gwyrdd a gerddi cymunedol.
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr ar waith cynnal a chadw amgylcheddol mewn gwarchodfeydd natur, gan gynnwys gwelliannau cynefin, clirio llwybrau a chamau bioamrywiaeth.
- Gosod a chefnogi creu byrddau dehongli, gwybodaeth llwybrau cerdded ac arwyddion treftadaeth.
- Helpu grwpiau i wella mynediad at natur drwy seilwaith ar raddfa fach a gwelliannau amgylcheddol.
- Cyflawni rhaglenni addysg amgylcheddol i ysgolion, teuluoedd a grwpiau cymunedol.
- Mae gwaith ymgysylltu ag ysgolion, cymunedau a sefydliadau wedi cael ei gydnabod yn ffurfiol, gan gynnwys gwobrau am brosiectau sy'n gysylltiedig â datblygiadau mawr fel Morlais.

# ADEILADU GWYTNWCH A GRYMUSO LLEOL

Mae Menter Môn yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi cymunedau i addasu, ymateb a ffynnu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Helpu grwpiau cymunedol i lywio grantiau a sicrhau cyllid
- Gweinyddu cronfeydd budd cymunedol, gan sicrhau bod adnoddau'n cyrraedd ysgolion lleol, elusennau a grwpiau cymunedol yn effeithiol.
- Darparu cefnogaeth llywodraethu, cyngor cynllunio prosiectau a chydlynu gwirfoddolwyr
- Annog ymatebion dan arweiniad y gymuned i unigedd gwledig, pwysau amgylcheddol neu fylchau gwasanaeth
- Cefnogi mentrau cymdeithasol lleol, mentrau micro a gweithgareddau cymunedol ar raddfa fach
- Gweithredu fel cysylltydd dibynadwy rhwng cymunedau, datblygwyr a phartneriaid sector cyhoeddus
- Arwain ar ymgysylltu cymunedol, gan sicrhau bod lleisiau lleol yn llywio penderfyniadau ac yn cyflawni effaith gymdeithasol ystyrlon



Mae Menter Môn hefyd yn cyflawni ystod eang o raglenni cefnogol sy'n cryfhau'r economi leol. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu buddsoddwyr i sicrhau bod pobl leol a mentrau'n gallu cymryd rhan lawn mewn cyfleoedd economaidd a grëir gan ddatblygiadau newydd.

## CEFNOGAETH BUSNES A THWF MENTER

Darparu cyngor, mentora ac arweiniad ymarferol i fusnesau bach, mentrau cymdeithasol a busnesau newydd.
Cyflawni gweithdai wedi'u teilwra ar bynciau fel cyllid, sgiliau digidol, marchnata, llywodraethu a chynllunio busnes.
Cefnogi entrepreneuriaid i ddatblygu syniadau cam cynnar
Hwyluso cyfleoedd rhwydweithio sy'n cysylltu cwmnïau lleol â chadwyni cyflenwi, cyllidwyr a chysylltiadau sector ehangach.
Helpu sefydliadau lleol i lywio grantiau, cyfleoedd buddsoddi a phrosesau caffael.

# CEFNOGAETH I'R SECTOR BWYD A DIOD

Rhedeg mentrau sy'n hyrwyddo cynhyrchwyr lleol ac yn cryfhau hunaniaeth bwyd a diod rhanbarthol.

Cydlynu ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo cydweithredol i gynyddu gwelededd cynnyrch lleol.

Darparu cefnogaeth dechnegol i gynhyrchwyr, gan gynnwys cyngor ar safonau, achrediad, pecynnu a datblygu'r gadwyn gyflenwi.




Cefnogi digwyddiadau, gwyliau ac arddangosfeydd sy'n rhoi mynediad i gynhyrchwyr at gwsmeriaid a marchnadoedd newydd.

Cyflawni prosiectau sy'n helpu busnesau i fabwysiadu arferion cynaliadwy a charbon isel ar draws y system fwyd.

Annog partneriaethau rhwng ffermwyr, proseswyr, manwerthwyr a busnesau lletygarwch i gadw gwerth yn lleol.



Rydym wedi llwyddo i greu Morlais, ein prosiect ynni llif llanw sy'n brosiect sydd â chaniatâd mwyaf o'r math hwn yn y byd.
Mae'n rheoli ardal o $35Km^2$ o wely'r môr ger Ynys Cybi, Ynys Môn. Mae gan y cynllun y potensial i gynhyrchu hyd at 240MW o drydan glân carbon isel.

Y nod yw gwneud ein rhan wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd wrth gyflawni budd economaidd a chymdeithasol i gymunedau lleol a'r rhanbarth ehangach. Fel cwmni lleol mae hyn wedi bod yn ganolog i'n gweledigaeth o'r cychwyn cyntaf.









Cafodd ein Tîm Budd Lleol ei greu i sicrhau bod gan bobl leol y sgiliau sydd eu hangen yn y sector ynni, yn ogystal â sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o gyfleoedd drwy’r gadwyn gyflenwi.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gydag ysgolion, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor i ennyn brwdfrydedd y genhedlaeth nesaf ac amlygu'r cyfleoedd. Mae’r gwaith hwn wedi cael cydnabyddiaeth y llynedd drwy Wobr y Newydd-ddyfodiad Gorau gan Gyrfa Cymru.

Rydym hefyd wedi arwain gwaith helaeth o fewn y sector busnes ledled gogledd Cymru. Ein barn ni yw, er mwyn i'r economi elwa o'r datblygiadau newydd, ei bod hi'n bwysig bod busnesau'n ymwybodol o'r cyfleoedd ac yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen i fanteisio'n llawn arnynt.

# WHY INVESTORS CAN RELY ON MENTER MÔN

**Strong Relationships Across Sectors.**

The organisation has established networks across the public, private and voluntary sectors, enabling collaboration, inclusive engagement and project buy-in.

enquiries@mentermon.com
01248 725 700
Neuadd y Dref, Llangefni, LL77 7LR

# PAM Y GALL BUDDSODDWYR DDIBYNNU AR MENTER MÔN

## Perthnasoedd Cryf Ar Draws Sectorau.

Mae'r cwmni wedi sefydlu rhwydweithiau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan alluogi cydweithio, ymgysylltiad cynhwysol a chymeradwyaeth i brosiectau.

ymholiadau@mentermon.com
01248 725 700
Neuadd y Dref, Llangefni, LL77 7LR